# WILLIAMS, WILLIAM ('Y Lefiad '; fl. 1853), cyfieithydd Uncle Tom's Cabin.

**Enw:** William Williams
**Ffugenw:** Y Lefiad
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cyfieithydd Uncle Tom's Cabin.
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** William Llewelyn Davies

Daeth yn adnabyddus yn ei gyfnod fel cyfieithydd gwaith Harriett B. Stowe, *Caban 'Newyrth Tom* (Abertawy, 1853) ac oblegid ei lyfr yn erbyn y Mormoniaid, sef *Dynoethiad Mormoniaeth; yn cynwys Hanes Joseph Smith, Saith Gradd y Deml, Gwreigiaeth Ysbrydol, yn nghyda'r Seremoniau a arferir ar Dderbyniad i'r Urdd hono. O enau tystion profedig* (Abertawy, 1853). Yr oedd yr awdur yn byw yn Ystradgynlais yn 1853.

Gweler bellach nodyn E. Wyn James yn *Canu Gwerin*, 27 (2004), t.46 (n.27), lle dangosir mai Thomas Levi oedd awdur y ddwy gyfrol a gyhoeddwyd dan y ffugenw 'Y Lefiad'. Cyfrannodd y gweinidog Methodist William Williams (1817-1900) ragymadrodd i gyfieithiad Thomas Levi, *Crynodeb o Gaban 'Newyrth Tom* (1853).

## Awdur

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

**Arddull APA**

×

Davies, W. Ll., (1953). WILLIAMS, WILLIAM ('Y Lefiad '; fl. 1853), cyfieithydd Uncle Tom's Cabin.. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WILL-WIL-1853

Copïo i'r clipfwrdd



LLGC NLW
LLYFRGELL
THE NATI

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government